



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

**TEITL** Rheoliadau Masnach a Rheolaethau Swyddogol (Trefniadau Trosiannol ar gyfer Hysbysiadau Ymlaen Llaw) (Diwygio) 2021

**DYDDIAD** 06 Ebrill 2021

**GAN** Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Masnach a Rheolaethau Swyddogol (Trefniadau Trosiannol ar gyfer Hysbysiadau Ymlaen Llaw) (Diwygio) 2021**

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r deddfwriaeth a ganlyn:

- Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol 2011;
- Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Yr Alban) 2012;
- Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020; a
- Rheoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau bod cyfraith bwyd a phorthiant anifeiliaid, a'r rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Nid yw Rheoliadau 2021 yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

### **Diben y diwygiadau**

Mae Rheoliadau 2021 yn gwneud newidiadau o ran gweithrediad er mwyn sicrhau bod rheolaethau effeithiol yn parhau i weithredu o fewn Prydain Fawr a rhwng Prydain Fawr a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwedd y Cyfnod Pontio.

Mae Rheoliadau 2021 yn newid y dyddiad y mae gofynion trosiannol yn gymwys o ran hysbysu ymlaen llaw ar gyfer cynhyrchion penodol sy'n dod o anifeiliaid a mathau

rhagnodedig o blanhigion a chynhyrchion planhigion o 1 Ebrill 2021 i 31 Gorffennaf 2021. Maent hefyd yn ymestyn hyd darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud â mewnforio planhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill i Brydain Fawr o Aelod-wladwriaethau'r UE, o 31 Mawrth 2021 i 31 Rhagfyr 2021.

Mae Rheoliadau 2021 yn ofynnol gan y bydd y gyfraith, heb y diwygiadau, o 1 Ebrill 2021 ymlaen yn ei gwneud yn ofynnol i fewnforwyr gydymffurfio â mesurau rheoli pellach wrth fewnforio cynhyrchion anifeiliaid a phlanhigion penodol. Mae Rheoliadau 2021 yn cael eu gwneud yn y Senedd o dan y weithdrefn gadarnhaol a wnaed i'w galluogi i ddod i rym ar 31 Mawrth. Bydd y diwygiadau'n caniatáu i fusnesau ac awdurdodau, sydd eisoes wedi'u heffeithio gan bandemig Covid-19, ymgyswrtio â'r gofynion cydymffurfio a'r systemau TG newydd, a galluogi mudo ymarferol o'r systemau presennol. Yn ogystal, nid oes gan awdurdodau ffiniau lleol y capasiti na'r gallu ar hyn o bryd i gynnal gwiriadau ar y ffin fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

Mae Rheoliadau 2021 a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukxi/2021/429/contents/made>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriad hwn mewn perthynas â Chymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod, ac oherwydd natur dechnegol y diwygiad. Mae wedi'i ystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd ym mis Mai.